Ysgol Plas Coch
Ffordd Stansty
Wrecsam
LL11 2BU

Ffôn: 01978 311198

Ysgol Bro Alun
Rhodfa Delamere
Gwersyllt
Wrecsam
LL11 4NG

Ffôn: 01978 269580

FFEDERASIWN YSGOL PLAS COCH AC YSGOL BRO ALUN

Mr Osian Jones BA (Pennaeth *Headteacher)*
mailbox@plascochpri.wrexham.sch.uk / mailbox@broalun-pri.wrexham.sch.uk

Annwyl rieni a gwarchodwyr **24:11:21**

Rydym yn gwybod y bu'r flwyddyn ddiwethaf yn un anodd i bawb. Eleni rydym am gadw eich plentyn yn yr ysgol gymaint â phosibl, ond rydym hefyd am gadw ein hysgolion a'n cymunedau'n ddiogel rhag effeithiau COVID-19. Mae gan bawb ei rôl i chwarae os ydym am gyflawni hyn, a gofynnwn yn garedig am eich cefnogaeth.

Wrth i ni barhau i reoli Covid-19 yn ein lleoliadau addysgol, hoffwn eich atgoffa o rywfaint o wybodaeth allweddol:

- os yw eich plentyn yn arddangos unrhyw symptomau, gan gynnwys symptomau eheangach i'r tri phrif un a'u bod dros 5 oed, dylent fynd am **brawf PCR.** Nid yw prawf LFT yn ddigon dibynadwy os oes symptomau yn bresennol.
- **Tra'ch bod yn disgwyl am ganlyniad prawf PCR os oes symptomau'n bresenol, ni ddylai'r plentyn na unrhyw frawd neu chwaer sydd dros 5 ddod i'r ysgol nes i'r canlyniad ddod nol.**
- Os ydych wedi gwneud prawf LFT ar eich plentyn am unrhyw reswm a fod hwnnw'n bositif, gadewch i ni wybod a **peidiwch a gyrru eich plentyn i'r ysgol.**
- Os ydych yn derbyn neges ebost 'Cyngor i Brofi' gan yr ysgol, a wnewch chi os gwelwch yn dda ddilyn y cyngor i fynd am **brawf PCR** ar y dyddiadau yn y neges.

Os bydd eich plentyn yn cael **canlyniad positif,** cadwch eich plentyn gartref i **ynysu am 10 diwrnod a rhowch wybod i'r ysgol** cyn gynted a sy'n bosib. Dilynwch y rheolau a nodir ar llyw.cymru/canllawiau-hunanynysu. Rhaid iddynt beidio â dychwelyd i'r ysgol nes bod eu cyfnod ynysu ar ben ac nid ydynt yn dangos unrhyw brif symptomau. Os yw'r **prawf yn negyddol,** gall eich plentyn ddychwelyd i'r ysgol cyn gynted ag y bydd yn teimlo'n well.

Os yw eich plentyn o dan 5 mlwydd oed, dylent aros i ffwrdd o'r ysgol os oes ganddynt symptomau. Rhaid iddynt beidio â dychwelyd i'r ysgol nes bod eu cyfnod ynysu ar ben ac nid ydynt yn dangos unrhyw brif symptomau. Ni ddylent gymryd profion COVID-19 oni bai bod hyn wedi'i gyfarwyddo gan feddyg neu os ydych yn credu bod prawf yn gwbl angenrheidiol ac er lles gorau eich plentyn.

Fel y rhiant/gwarchodwr, bydd Profi Olrhain Diogelu yn cysylltu â chi naill ai drwy neges destun SMS i lenwi ffurflen olrhain electronig ar-lein neu dros y ffôn. Sicrhewch eich bod yn darparu manylion y sawl sy'n byw gyda chi a'r sawl sydd wedi dod i gyswllt â chi fel y gellir eu cynghori'n briodol (bydd hyn yn ein helpu i atal y feirws rhag lledaenu).

Mae niferoedd yr achosion yn cynyddu yn y ddwy ysgol felly gofywn i chi gadw at yr uchod er mwyn i ni fedru parhau efo addysg y disgyblion efo cyn lleied a phosib o amharu ac i bawb fedru dathlu a mwynhau'r Nadolig.

Gyda diolch,

Osian Jones